# 19. Y PUMED YMADRODD - Mae arnaf syched

**Darllen**: Ioan 19: 38-29

Â'r diwedd yn agosáu, dywedodd Iesu tri pheth yn gyflym, un ar ôl y llall. '*Y mae arnaf syched'*, yw'r unig gyfeiriad at ei ddioddefaint corfforol enfawr. Nid dioddef er mwyn dioddef sydd yma, nid ceisio achub yr hunan, ond cyflwyno cariad Duw i'r ddynoliaeth a'i ollwng yn rhydd yn y byd. Cododd rhywun ysbwng o win chwerw ato. '*Rhoesant wenwyn yn fy mwyd a gwneud imi yfed finegr yn fy syched'* (Salm 69: 21). Yn ei wendid, derbyniodd y gwin mewn diolch, fel y derbyniodd ofal a charedigrwydd gan lawer dros dair blynedd ei weinidogaeth. Beth, tybed, yw'r neges i'n hannibyniaeth ni fel unigolion ac eglwysi (o bob enwad) wrth i ni ei weld yn derbyn caredigrwydd ar awr ei angen? O wendid Duw y daw nerth i ni.

**Gweddi:**

*Arglwydd Iesu Grist, dioddefaist syched ar y groes; syched am ddu'r, am gyflawni amcanion Duw, am waredigaeth y byd. Caniatâ i ni ddod atat ti, ffynnon y du'r bywiol i gael ein disychedu wrth i ni dy adnabod yn well, dy garu'n fwy, a'th ddilyn yn ffyddlonach, yn awr ac yn wastad. Amen.*